


PAM ASTUDIO DYFARNIAD LEFEL 3 MEWN

# BAGLORIAETH SGILIAU CYMRU UWCH?

Cymhwyster Lefel 3 newydd cyffrous yw'r cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (BSC Uwch) sy'n cefnogi myfyrwyr i ddod yn ddinasyddion effeithiol, cyfrifol a gweithgar, gan sicrhau bod y sgiliau ganddyn nhw ar gyfer astudiaeth yn y dyfodol neu i fynd i mewn i'r farchnad swyddi.

Dyluniwyd y cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer myfyrwyr 16-19 oed, a gellir ei sefyll ochr yn ochr â chymwysterau lefel 3 eraill, gan gynnwys Safon Uwch.

**BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?**

Mae ein cwrs dwy flynedd yn cynnwys 3 phroject: Project Cymuned Byd-eang, Project Cyrchfan y Dyfodol, a Phroject Unigol. Byddwch yn datblygu ac yn cymhwyso'r 4 sgìl Cyfannol ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu'r 3 sgìl Mewnblanedig. Bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a chyd-destunau cyffrous a fydd yn seiliedig ar agenda datblygiad cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Nodau Llesiant Cymru yn ôl diffiniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?**

Byddwch chi'n datblygu amrywiaeth o sgiliau sy'n atyniadol i gyflogwyr, colegau a phrifysgolion, gan gynnwys:

**Sgiliau cyfannol**

- Cynllunio a Threfnu
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Creadigrwydd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol

**Sgiliau mewnblanedig**

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Cymhwysedd Digidol

**SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?**
**Byddwch yn cwblhau 3 phroject:**

**Project Cymuned Fyd-eang (25%)**
Byddwch yn dewis mater byd-eang i ymchwilio iddo, yn rhannu eich gwybodaeth ag eraill ac yn gweithredu yn y gymuned.

**Project Cyrchfannau'r Dyfodol (25%)**
Byddwch yn dod i ddeall chi eich hun, yn archwilio nodau o ran cyflogaeth a llesiant yn y dyfodol, ac yn cynllunio sut gallwch gyflawni hyn.

**Project Unigol (50%)**
Byddwch yn cynllunio, yn rheoli ac yn ymchwilio i destun sy'n gysylltiedig â'ch dyheadau addysg neu yrfa yn y dyfodol, ac yn creu traethawd hir ysgrifenedig neu arteffact.

Gellir sefyll asesiadau drwy gydol y cwrs dwy flynedd gyda chymedroli allanol ym mis Ionawr a mis Mai. Rydych yn debygol o gwblhau'r Project Unigol yn yr ail flwyddyn.

**GYRFAOEDD GYDA BSC Uwch**
Mae'r cymhwyster hwn yn eich galluogi i feithrin sgiliau pwysig y gallwch eu datblygu p'un a ydych yn symud ymlaen i brifysgol, hyfforddiant neu gyflogaeth. Bydd datblygu'r sgiliau hyn yn eich helpu i ddod yn ddinesydd effeithiol, cyfrifol a gweithgar a gall gael effaith aruthrol ar eich llwyddiant a'ch llesiant yn y dyfodol.

DEWCH I WYBOD MWY:
SIARADWCH Â'CH ATHRO HEDDIW!

Ewch ar Instagram i gael yr awgrymiadau a'r cyngor diweddaraf

@cbacifyfyrwyr